



CHWARAEON A HAMDDEN AR HYD LLWYBR ELÁI

Bydd y map hwn yn eich helpu i ddod o hyd i gyfleusterau Chwaraeon a Hamdden sydd ar gael ar hyd Llwybr Elái. Mae cyfleusterau yn amrywio o safleoedd picnic, teithiau cerdded trwy ardaloedd coedlog i gyfleusterau chwaraeon gan gynnwys y Stadiwm Pêl-droed a llwyfannau pysgota. Cliciwch ar yr 'iconau' i ddarganfod mwy...

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3230

E-bost: countryside@caerdydd.gov.uk

Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

www.caerdyddawyragored.com

ALLWEDD

	Llwybr Trelái		Angorffeydd Pont Wn i Ymwelwyr
	Parcio		Coedwig Glan Elái
	Pentref Chwaraeon Rhyngwladol		Pentref Morol Caerdydd
	Taith Gerdded Gylchol Sain Ffagan		Slalom canwio dŵr
	Amgueddfa Werin Sain Ffagan		Canolfan sglefrïo dros dro
	Coedwig Plymouth		Pwll Rhyngwladol Caerdydd
	Parc Grangemore		Mordeithiau Bae Caerdydd ac Afonydd
	Parc Trelái a Choedwig Lecwydd		
	Caeau Hamdden Mill Road		
	Parc Sanatorium		
	Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol		
	Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd		
	Llwyfannau Pysgota a Safle Picnic		



Y PENTREF CHWARAEON RHYNGWLADOL

Mae Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd ym mae Caerdydd, yn broject mawr, a fydd, gyda gobaith, yn trawsffurfio hen safle diwydiannol drwy wella'r amgylchedd lleol a chreu cyfleusterau chwaraeon newydd. Mae gwelliannau yn cynnwys rhwydwaith ffordd/seiclo/cerdded newydd a gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith ffordd lleol presennol, yn cysylltu'n uniongyrchol â Cogan Spur, Ffordd Gyswllt Grangetown (A4232) a Chyffordd 33 yr M4. Gellir cyrraedd y safle o ddechrau Llwybr Elái drwy deithio ar hyd Dunleavy Drive, i'r de dan Ffordd Gyswllt Grangetown ac ar draws y groesfan twcan tuag at archfarchnad Morrison's.

PWLL RHYNGWLADOL CAERDYDD

Mae datblygiadau newydd yn cynnwys Pwll Rhyngwladol Caerdydd sy'n ffurfio'r canolbwynt ac yn gosod y safon ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Agorodd ym mis Ionawr 2008, gan dderbyn dros 300,00 o ymwelwyr yn y chwe mis cyntaf, â 58 record wedi'u torri mewn un digwyddiad yn nhymor y gwanwyn 2009. Mae'r cyfadeilad yn darparu ystod eang o gyfleusterau, gan gynnwys pwll 50m ar gyfer nofio, lonydd 25m llai ar adegau eraill a gwersi nofio Parth Aqua. Mae'r safle hefyd yn cynnwys pwll hamdden â 4 sleid, Afon Araf, Space Bowl ac ardal chwarae i blant. Mae cyfleusterau ychwanegol yn cynnwys stiwdio iechyd a ffitrwydd â system aerdymheru, sy'n cynnal 50 dosbarth ymarfer i grwpiau, 2 stiwdio dawns/gweithgaredd; Ystafell Iechyd â sawna, Jacwsi mawr ac ystafelloedd ager, Bar Caffi, Crèche, "Parth Parti" ar gyfer partïon plant a lle parcio ar y safle.



CANOLFAN SGLEFRIO DROS DRO

Mae llawr sglefrio iâ dros dro ag iddo 2,000 sedd, hefyd wedi'i adeiladu ar safle'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Mae'n cynnal gemau hoci iâ proffesiynol ac yn cynnig cyfleusterau sglefrio hamdden i'r cyhoedd. Bydd y strwythur yn cael ei amnewid pan fydd y Bocs Eira a'r cyfadeilad iâ hamdden yn agor. Bydd y Bocs Eira yn cynnig hwyl a gwefr eira go iawn a bydd y cyfadeilad iâ yn cynnwys pad iâ ar gyfer sglefrio hamdden a chwaraeon iâ.



SLALOM CANŴIO DŴR



Darparwyd dyluniadau cynnar gan grewyr y cwrs ar gyfer y Gemau Olympaidd yn Sydney, Athens a Beijing, ar gyfer cwrs slalom canŵio dŵr pwmp safon Olympaidd ar gyfer safle'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Dechreuodd gwaith ym mis Medi 2008 a gobeithir y bydd wedi'i gwblhau dechrau 2010. Unwaith y bydd ar agor bydd cwrs 8.4m ar gael ar gyfer rafftio dŵr gwyn, canŵio a chaiacio hamdden a safon Olympaidd. Bydd yn galluogi Caerdydd i gynnig cyfleusterau hyfforddi pellach ar gyfer athletwyr y DU a chystadleuwyr o wledydd sy'n ymweld ar gyfer y Gemau Olympaidd 2012.




MORDEITHIAU BAE CAERDYDD AC AFONYDD

Gallwch hwylio ar lannau Bae Caerdydd, y Morglawdd ac ar hyd Afon Elái a'r Afon Taf, ar 'Gychod Gwyrdd'. Mae'r 'Cychod Gwyrdd' ar gael ar gyfer mordeithiau siarter, llogi preifat, wedi'u haddasu ac wedi'u teilwra'n arbennig i'ch anghenion. Hefyd, mae cwch bwyty yn cynnig mordeithiau ciniawa ac fel arall. Mae'r holl gychod yn gadael y pontynau o flaen Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd.

Gallwch hefyd fordeithio o amgylch Bae Caerdydd, Afon Taf, a'r Morglawdd mewn steil ar y Bws Dŵr, system drafnidiaeth mwyaf newydd Caerdydd. Mae'r Bws Dŵr yn darparu fflyd o longau o rai moethus i fysis, â staff morol cymwys a phrofiadol. Mae'r llong mordeithio moethus Seren-y-Bae yn cynnig y cefndir perffaith ar gyfer unrhyw achlysur, p'un ai diodydd â ffrindiau, cinio teulu, neu achlysur corfforaethol neu breifat mwy.





PARC GRANGEMOORE



Mae'n anodd credu mai tomen sbwriel oedd y parc hwn, sydd bellach yn gyfleuster hamdden pwysig i breswylwyr lleol. Roedd y safle hwn yn ffurfio rhan o Aber Elái Afon Taf yn wreiddiol a oedd yn cynnwys ystumiau afon ac ystumllynnoedd, codwyd y lefelau bryd hynny yn sylweddol gan ei ddefnydd newydd fel safle tirlenwi. Ar ôl cau'r domen sbwriel cwblhawyd y gwaith adfer tir yn 2000, gan ffurfio man agored newydd sbon 'Parc Grangemoore' fel y'i gelwid, yn dilyn cystadleuaeth leol.

PARC GRANGEMOORE

Defnyddir y parc a ddyluniwyd fel lleoliad ucheldir Cymreig ar y brynau a ffurfiwyd gan y domen, yn effeithiol â golygfa o gopa'r parc, yn cynnig golygfeydd panoramig o ganol y ddinas a Bae Caerdydd sy'n newid o hyd. Mae'r bryn uchaf yn cynnwys glaswelltir a phrysg sy'n gyfoeth o flodau a'r cerflunwaith 'Silent Links'. Mae pwll ac ardal picnic wedi'i greu ar droed y bryn hwn, yn ogystal â wal gerrig o ansawdd uchel wedi'i adeiladu o amgylch ymyl y parc. Mae rhan o'r wal hwn yn ffurfio mynedfa ddeniadol i Lwybr Elái, sydd ar gael i gerddwyr a seiclwyr. Hefyd mae rhwydwaith da o lwybrau yn estyn o amgylch a thrwy'r parc sy'n cysylltu'n dda ag ardaloedd gerllaw. Mae'r rhwydwaith yn darparu adnodd gwych i gerddwyr, cerddwyr cŵn a rhedwyr ac wedi'i gynnwys mewn cyfres o becynnau cerdded 'Get up and Go' teithiau cerdded iach a golygfaol Cerdded Er Lles Iechyd, a gynlluniwyd i wella'r corff a'r meddwl.



ANGORFEYDD PONTŴN I YMWELWYR

Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd yn darparu angorfeydd pontŵn i ymwelwyr o fewn Harbwr Mewnol Bae Caerdydd. Mae defnydd o'r pontynau yn unol â'r Amodau a Thelerau sydd wedi'u harddangos ar y pontŵn. Mae'r rhain wedi'u lleoli wrth ymyl Roald Dahl Plass ac o fewn y Dociau Sych. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, cyfyngir y mynediad i'r pontynau hyn oherwydd y gweithgareddau dŵr a'r digwyddiadau yn y Bae. Yn yr achos hwn mae cyfleusterau angori ychwanegol wedi'u gosod wrth ymyl y fynedfa i Lwybr Elái yn Dunleavy Drive ar Afon Elái.





PENTREF MOROL CAERDYDD



Dan faner Gwasanaethau Morol Caerdydd mae'r cwmni sydd wedi bod yn atgyweirio a gwasanaethu cychod yn eu cyfleuster ym Mae Caerdydd am bron i ddeg ar hugain o flynyddoedd wedi agor canolfan wasanaethu newydd ar Heol Penarth, wrth ymyl Llwybr Elái. Mae Pentref Morol Caerdydd yn dod ag adeiladwyr, cynhyrchwyr yn y diwydiant morol, offer, cyflenwyr deunyddiau a darparwyr gwasanaethau cysylltiedig ynghyd. Mae'r Pentref Morol hefyd yn cynnwys gweithdai modern ac ystod eang o wasanaethau morol arbenigol gan gynnwys lifft cwch ac angorfeydd wrth lan Afon Elái.



LLWYFANNAU PYSGOTA A SAFLE PICNIC

Mae safle picnic a physgota newydd yn cynnwys llwyfannau pysgota, dau fwrdd picnic a meinciau cyfannol a rhwydwaith llwybr cysylltiedig wedi'u gosod ar adran Lecwydd o Lwybr Elái. Cynhaliwyd seremoni agoriadol ym mis Medi 2009, ar ôl torri'r gwair, clirio'r sbwriel a chreu pentwr ymlusgiaid. Darparwyd yr arian i greu'r safle amwynder gan [Glwb Rotari Bae Caerdydd](#), [The Innovative Trust](#) a [Chyngor Cefn Gwlad Cymru](#).

LLWYFANNAU PYSGOTA A SAFLE PICNIC

Mae'r llwyfannau pysgota ar hyd Afon Elái yn gyfleuster pysgota ac mae rhywogaethau yn cynnwys rhufell, symlyn, cochgangen, ag ambell i frwyniad a rhuddbysgodyn, fodd bynnag ceir hefyd hyrddyn a lleden. Mae angen trwydded i ddefnyddio'r llwyfannau pysgota a gaiff eu patrolio gan wardeniaid Awdurdod Harbwr Caerdydd. Ni chaniateir pysgota o gychod a physgota gêm ar hyd Afon Elái. Fodd bynnag, mae safleoedd pysgota cwrs ychwanegol ar hyd Afon Elái yn cael eu hystyried ym Mharc Grangemoore a Pharc Sanatorium tu ôl i Erddi Lansdowne.




STADIWM PÊL-DROED DINAS CAERDYDD




Mae Project Stadiwm Clwb Pêl droed Dinas Caerdydd yn broiect adfywio mawr sy'n meddiannu lleoliad strategol bwysig o fewn Afon Elái. Mae'n agos iawn at Afon Elái a Llwybr Elái ac yn cynnig cyfleusterau chwaraeon a hamdden ychwanegol yn yr ardal.





STADIWM PÊL-DROED DINAS CAERDYDD

Mae'n defnyddio'r tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer chwaraeon a defnydd hamdden gan gynnig yr hen stadiwm pêl droed ar gyfer tai newydd gan Redrow. Mae'r safle newydd yn cynnwys stadiwm pêl-droed 27,000 sedd, stadiwm athletau newydd, academi hyfforddi 'Tŷ Chwaraeon' ('House of Sports') newydd dan do, y 'Project Maes' ('Field Project'), cyfleuster hyfforddi Vision 21 ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu, datblygiad adwerthu newydd. Hefyd yn rhan o'r datblygiad mae seilwaith newydd yn cynnwys cyfnewidfa newydd ar gyfer Leckwith Road/PDR, ehangu Leckwith Road, gwasanaethau gwell a gorsaf parcio a theithio newydd.



STADIWM PÊL-DROED DINAS CAERDYDD

Mae'r datblygiad adwerthu newydd wedi'i gwblhau â siopau yn cynnwys Costco, Asda, Marks and Spencer's, JJB Sports, SCS a Next bellach wedi'u hagor. Mae cyfnewidfa'r Ffordd Gyswllt, ehangu Leckwith Road a diweddaru'r gwasanaethau wedi'u cwblhau ac yn cynnwys llwybrau croesi i gerddwyr a seiclwyr gan gysylltu'r safle i/o Lwybr Elái trwy Leckwith Road ar droed y bryn. Mae'r stadiwm pêl droed newydd hefyd wedi'i gwblhau ac fe'i agorwyd yn swyddogol ar 22 Gorffennaf 2009.


STADIWM CHWARAEON RHYNGWGLADOL CAERDYDD

Mae Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd yn gyfleuster digwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau arbennig sy'n cynnig amrediad o weithgareddau. Yn addas i'w ddefnyddio gan y gymuned leol a chyrrff Llywodraethu Chwaraeon, gall y stadiwm gwrdd â'ch holl ofynion ar gyfer eich digwyddiad neu unrhyw gyngor ffitrwydd. Agorwyd y cyfleuster athletau newydd yn swyddogol gan Colin Jackson ym mis Mawrth 2009 ac mae'r caeau chwarae a'r ardaloedd paratoi/taflu ar gaeau chwarae Ysgol Fitzalan wedi'u diweddaru.



STADIWM CHWARAEON RHYNGWLADOL CAERDYDD

Mae gwasanaethau ychwanegol yn cynnwys cyfleusterau trac a maes, cae hyfforddi artiffisial, caeau rygbi/pêl droed, llwybr ffitrwydd yn arwain at ardal redeg oddi ar y ffordd eang â chysylltiadau i Barc Sanatorium a Llwybr Elái, ystafell letygarwch, siop adwerthu chwaraeon, parthau gweithgareddau, ystafelloedd hyfforddi â chyfleusterau cegin, ystafelloedd newid, ystafelloedd ffisiotherapi, caffi, ardaloedd gwlypdiroedd, lard tu allan a manau parcio. Mae hefyd yn gartref i Athletau Cymru, tîm ieuenctid Pêl droed Dinas Caerdydd, Clwb Pêl droed y Grange Harlequins, Clwb Pêl droed Merched Dinas Caerdydd a Chlwb Athletau Amatur Caerdydd.



PARC SANATORIUM


Mae'r parc hwn wedi'i ddatblygu'n ddiweddar a bellach mae'n cynnwys meysydd chwaraeon anffurfiol, ardal chwarae i blant, tirweddu coed a llwyni a rhwydwaith llwybrau newydd. Mae'r rhwydwaith llwybrau yn arwain at Lwybr Elái o dan y ffordd gyswllt ar Leckwith Road. Yna gallwch fynd i adran Lecwydd o Lwybr Elái drwy groesi Leckwith Road, wrth droed y bryn. Yn y pen draw unwaith bydd y 'cyswllt coll' ar gyfer Lwybr Elái yn cael ei adeiladu bydd y rhwydwaith llwybrau hefyd yn rhedeg o'r Parc i'r cyn safle melin bapur, ac yn arwain yn uniongyrchol i Heol Orllewinol y Bont faen a gweddill y Llwybr.



PARC SANATORIUM



Er mwyn cyrraedd rhan honno'r llwybr, defnyddiwch y rhwydwaith llwybrau presennol ar Lawrenny Avenue, neu i Erddi Lansdowne a defnyddiwch y rhwydwaith llwybrau presennol i fynd i Heol Orllewinol y Bont faen. Mae Lawrenny Avenue hefyd yn arwain at Glwb Rygbi/Athletau Treganna a chanolfan bêl-droed 'Gôl'. Mae darn o Afon Elái, ger y parc yn cael ei ddefnyddio gan ganŵwyr a rhwyfwyr. Gobeithir datblygu cyfleusterau pysgota cwrs ar hyd lan yr afon yn fan hyn.



PARC TRELÁI A CHOEDWIG LECWYDD

Agorwyd Parc Trelái yn 1933, ar gyn safle Clwb Rasio Caerdydd. Mae'n fan agored mawr yn ardal Caerau o Gaerdydd. Mae'r parc yn cynnwys nifer fawr o feysydd chwaraeon ar gyfer pêl-droed, hoci a chriced, ynghyd â maes parcio mawr ac ystafelloedd newid. Darperir cyrtiau tenis a lawnt fowlio hefyd. Er bod y meysydd yn mynd ag ardal fawr o'r safle, mae nodweddion eraill o ddiddordeb gan gynnwys ardal goediog (a elwir yn lleol yn 'Pixie Woods') ger Afon Elái, ardal wedi'i thirweddu ger y maes chwarae, gweddillion Fila Rhufeinig a gerddi rhandiroedd.





PARC TRELÁI A CHOEDWIG LECWYDD

Gellir cyrraedd y parc o Lwybr Trelái o fynedfa Wroughton Road drwy deithio ar hyd Heol Orllewinol y Bont faen i Colin Way. Mae llwybr drwy'r parc hefyd yn arwain at Goedwig Lecwydd o dan Ffordd Gyswllt Trelái i Fro Morgannwg, gan gynnwys Coedwig Plymouth a Choedwig Company, sy'n cynnwys pyllau clai a chwarel.


A landscape photograph showing a wide, green field with a dirt path that curves from the bottom right towards the center. In the background, there is a dense line of trees and some buildings visible through the foliage. The sky is overcast with grey clouds. On the far left, a portion of a tree is visible. A black rectangular box is in the top right corner.

CAEAU HAMDDEN MILL ROAD

Cae hamdden sydd wedi'i leoli oddi ar Mill Road yn Nhrelái, y gellir mynd ato drwy groesi Llwybr Elái ym Mhont Trelái, teithio ar hyd Heol Orllewinol y Bont faen a Mill Road ac i'r cae hamdden sy'n edrych dros Afon Elái ar ochr arall y Llwybr. Sefydlwyd y tir gan berchenogion yr hen Felin Bapur ar Bont Trelái i'w ddefnyddio gan eu gweithwyr. Felly fel caeau'r 'Felin Bapur' yr adnabyddir e'n lleol a'i ddefnyddio bellach gan dimau pêl droed lleol.

COEDWIG GLAN ELÁI

Mae Coedwig Glan Elái, sydd wedi'i henwi gan ei bod'ar lan Afon Elái, yn cynnwys 2.42 hectar o goedwigoedd lled naturiol hynafol. Fe'i dynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur, gan gydnabod cynefinoedd a nodweddion o bwysigrwydd cadwraeth natur lleol o leiaf. Cafodd ail arolwg yn 2006 ac mae'n gymwys fel Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur o dan ddsbarthiad Coetir H1. Mae Llwybr Elái ac Afon Elái yn rhedeg drwy'r goedwch ychydig i'r gorllewin o'r Tyllgoed, lle gellir gweld Cwcwll y Mynach, Peneuraidd, Clychau'r Gog, Titw Tomos Las, Titw Mawr, Cartheig y Calch, coed Gwernen, Collen a Ffawyddden. Mae Cwcwll y Mynach yn blanhigyn gwenwynig deniadol ag iddo flodau porffor o fis Mai i fis Medi sy'n debyg i siâp cwcwll mynach. Mae hefyd yn ymddangos ar lannau Afon Elái gan gefnogi ei statws fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r goedwig yn fan braf er mwyn myfyrio'n dawel.



TAITH GERDDED GYLCHOL SAIN FFAGAN

Lansiwyd Taith Gerdded Gylchol Sain Ffagan ym mis Mehefin 2008. Mae'r llwybr yn un hygrych sy'n cael ei hyrwyddo. Mae'n dilyn Bryn y Castell ar ochr arall y ffordd o Lwybr Elái. Mae'r daith sydd tua 2 filltir o hyd, wedi'i chlustnodi gan arwyddion llwybr a mynegbyst coch. Mae'n weddol wastad gyda llethrau graddol a sawl camfa. Y man cychwyn yw'r giât mochyn, yna mae'r llwybr yn dilyn Hawl Tramwy Cyhoeddus, drwy fosaig o Goetir Ffawydden, tir amaeth, ar hyd rhan o St Brides Road ac ar hyd parcdir a reolir yn dda sy'n rhan o Ystad Plymouth ehangach.





TAITH GERDDED GYLCHOL SAIN FFAGAN

Mae'r coetiroedd yn gartref i nifer o rywogaethau o ystlumod, a charpedi o Glychau'r Gog, garlleg gwyllt, Llygad Ebrill a Blodau'r Gwynt yn y gwanwyn. Mae'r daith yn amgáu safle Brwydr Sain Ffagan a gynhaliwyd ym mis Mai 1648 pan gafodd byddin Seneddol anfodlon a oedd yn ochri â'r Brenin, y 'Rebeliaid Brenhinol' fel y'u gelwir, eu gorchfygu gan y Seneddwyr a anfonwyd gan Cromwell i gael gwared arnynt.

AMGUEDDFA WERIN SAIN FEAGAN

Mae'r safle, a adnabyddir bellach fel Amgueddfa Werin Cymru yn un o brif amgueddfeydd awyr agored Ewrop ac atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru. Cafodd y tir gan gynnwys Castell sydd wedi'i leoli o fewn can acer o barcdir, ei roi gan larll Plymouth er mwyn agor Amgueddfa Werin Cymru. Agorwyd y gerddi i'r cyhoedd yn 1947 a'r castell ar 1 Gorffennaf 1948. Y Castell, Adeilad Rhestredig Gradd II yw'r prif arddangosyn, a gafodd ei adnewyddu yn 1988 i gynrychioli plasty nodweddiadol o Gymru o tua 1830.





AMGUEDDFA WERIN SAIN FFAGAN

Mae gan y gerddi strwythur Tuduraidd gwaelodol ac maent yn parhau i gynnal dipyn o'r cynllun Fictoraidd ac Edwardaidd, gyda phyllau ffurfiol, gardd ddŵr Fictoraidd a choetir arbrofol a osodwyd ar ddechrau'r 20fed ganrif. Mae project newydd o'r enw 'Archwilio Ein Coedwigoedd' gyda llwybr natur ymarferol drwy goetiroedd ffawydden, yn cynnig gweithgareddau coetiroedd am ddim gyda dehonglwyr coetiroedd i ysgolion a mynediad i bum gwe gamera newydd: camera adar, camera nyth, camera hebog, camera pyllau a chamera ymborthwr ar y tir. Mae'r amgueddfa hefyd yn cynnwys dros ddeugain o enghreifftiau o bensaerniaeth Gymreig o wahanol gyfnodau hanesyddol sydd wedi'u hailgodi ar y safle.

AMGUEDDFA WERIN SAIN FFAGAN


Mae'r adeiladau a ailgodwyd yn cynnwys tai, fferm, ysgol, capel a Sefydliad y Gweithwyr gogoneddus. Ceir hefyd gweithdai lle mae crefftwyr yn dal i ddangos eu sgiliau traddodiadol, ac mae'n bosib prynu eu cynnyrch fel arfer. Mae bridiau brodorol anifeiliaid i'w gweld yn y caeau a'r closau, a chynhelir arddangosfeydd o dasgau ffermio yn rheolaidd. Ceir orielau hefyd sy'n arddangos gwisgoedd, bywyd dyddiol, offer ffermio a thrwy gydol y flwyddyn, daw'r Amgueddfa yn fyw – yn llythrennol – wrth ddathlu gwyliau traddodiadol a digwyddiadau cerddoriaeth a dawns. Mae gan yr Amgueddfa sawl caffi, siop a chyfleusterau parcio ceir hefyd. Mae mynediad i'r Amgueddfa am ddim, ond rhaid talu am barcio.



COEDWIG PLYMOUTH

Cyn y Rhyfel Mawr, roedd Coedwig Plymouth (Coed Mawr) yn cynnwys coetir trwchus heblaw am y rhodfeydd croestoriadol a safle'r hen chwarel, wedi'i hamgáu gan ffens, yn un o hoff fannau'r diweddar larll Plymouth. Yn ystod y Rhyfel, yn sgîl prinder coed, roedd bron pob coeden a oedd yn ddigon aeddfed yn cael ei thorri a'i thynnu o'r goedwig, roedd ffensys yn diflannu a gwnaed llawer o ddifrod i weddill y coed ifanc, a chafodd blodau a rhedyn gwyllt eu diwreiddio yn llwyr gan y cyhoedd. Ym mis Mawrth 1922, rhoddodd larll Plymouth yr eiddo i Gorfforaeth Caerdydd ar y pryd ar gyfer man agored, i sicrhau bod y Goedwig yn parhau ac yn cael ei chadw fel lle hamdden a cherdded wedi'i lleoli'n gyfleus yn y faestref newydd oedd ar fin cael ei hadeiladu ar gyn safle fferm y Tŷ Coch.




A photograph of a forest path. In the foreground, there is a dense carpet of small white flowers, possibly cowslips, growing along the edge of a dirt path. The path leads into a forest of tall, slender trees with green foliage. Sunlight filters through the leaves, creating dappled light on the path and the forest floor. The overall scene is peaceful and natural.

COEDWIG PLYMOUTH

Adeg honno, roedd y Goedwig, a gafodd ei hailenwi yn Goedwig Plymouth ar ôl yr larll, yn gartref i nifer o rywogaethau prin gan gynnwys Britheg, y Glöyn Llwydfelyn, y Gnocell Frith Fwyaf a Lleiaf, Hebog yr Ehedydd, y Titw Penddu a'r Pengam. Ymhlith y rhywogaethau eraill oedd Sgrech y Coed, y Dryw Eurgopog, Gwiwerod, Clychau'r Gog, Briallu, Mafon gwyllt, Mefus tir, Gwas y Neidr, Britheg Berlog, Mantell Dramor a Mantell Paun, Bysedd y Cŵn, Helyglys, Pabi a Phannog Felen. Mae rhai coed yn parhau o hyd gan gynnwys y Ffawyddden, Coeden Geirios Du, Castanwydden Bêr, Derwen, Ysgawen, Celyn, Masarnen, Ffynidwydden a phlanhigfa o Larwydden a Phinwydden yr Alban.

COEDWIG PLYMOUTH

Codwyd lloches yn ystod gaeaf 1928-29, ond mae wedi'i dymchwel erbyn hyn. Yn ddiweddarach, gosodwyd hysbysiadau amhoblogaidd yn y coed yn gwahardd pobl rhag casglu blodau gwyllt, fel cam angenrheidiol i warchod harddwch naturiol y coed ac er mwyn cadw'r blodau gwyllt a'r adar i genedlaethau'r dyfodol. Yn sgîl y cam drastig ac amhoblogaidd hwn gellir gweld llawer o'r rhywogaethau y sonnir amdanynt uchod yn y coed o hyd. Gellir cyrraedd y Goedwig o Lwybr Elái drwy groesi dros y groesfan wastad a heibio'r mynediad i Glwb Tennis Lawnt Sain Ffagan, Michaelston Road a mynd at y coed drwy'r Hawl Tramwy Cyhoeddus, sy'n rhedeg ar hyd waelod y coed ac Afon Elái am beth pellter (tua milltir).



PWLL RHYNGWLADOL CAERDYDD

Mae datblygiadau newydd yn cynnwys Pwll Rhyngwladol Caerdydd sy'n ffurfio'r canolbwynt ac yn gosod y safon ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Agorodd ym mis Ionawr 2008, gan dderbyn dros 300,00 o ymwelwyr yn y chwe mis cyntaf, â 58 record wedi'u torri mewn un digwyddiad yn nhymor y gwanwyn 2009. Mae'r cyfadeilad yn darparu ystod eang o gyfleusterau, gan gynnwys pwll 50m ar gyfer nofio, lonydd 25m llai ar adegau eraill a gwersi nofio Parth Aqua. Mae'r safle hefyd yn cynnwys pwll hamdden â 4 sleid, Afon Araf, Space Bowl ac ardal chwarae i blant. Mae cyfleusterau ychwanegol yn cynnwys stiwdio iechyd a ffitrwydd â system aerdymheru, sy'n cynnal 50 dosbarth ymarfer i grwpiau, 2 stiwdio dawns/gweithgaredd; Ystafell Iechyd â sawna, Jacwsï mawr ac ystafelloedd ager, Bar Caffi, Crèche, "Parth Parti" ar gyfer partïon plant a lle parcio ar y safle.



CANOLFAN SGLEFRIO DROS DRO

Mae llawr sglefrio iâ dros dro ag iddo 2,000 sedd, hefyd wedi'i adeiladu ar safle'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Mae'n cynnal gemau hoci iâ proffesiynol ac yn cynnig cyfleusterau sglefrio hamdden i'r cyhoedd. Bydd y strwythur yn cael ei amnewid pan fydd y Bocs Eira a'r cyfadeilad iâ hamdden yn agor. Bydd y Bocs Eira yn cynnig hwyl a gwefr eira go iawn a bydd y cyfadeilad iâ yn cynnwys pad iâ ar gyfer sglefrio hamdden a chwaraeon iâ.



SLALOM CANŴIO DŴR



Darparwyd dyluniadau cynnar gan grewyr y cwrs ar gyfer y Gemau Olympaidd yn Sydney, Athens a Beijing, ar gyfer cwrs slalom canŵio dŵr pwmp safon Olympaidd ar gyfer safle'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Dechreuodd gwaith ym mis Medi 2008 a gobeithir y bydd wedi'i gwblhau dechrau 2010. Unwaith y bydd ar agor bydd cwrs 8.4m ar gael ar gyfer rafftio dŵr gwyn, canŵio a chiaiocio hamdden a safon Olympaidd. Bydd yn galluogi Caerdydd i gynnig cyfleusterau hyfforddi pellach ar gyfer athletwyr y DU a chystadleuwyr o wledydd sy'n ymweld ar gyfer y Gemau Olympaidd 2012.





CHWARAEON A HAMDDEN AR HYD LLWYBR ELÁI

Bydd y map hwn yn eich helpu i ddod o hyd i gyfleusterau Chwaraeon a Hamdden sydd ar gael ar hyd Llwybr Elái. Mae cyfleusterau yn amrywio o safleoedd picnic, teithiau cerdded trwy ardaloedd coediog i gyfleusterau chwaraeon gan gynnwys y Stadiwm Pêl-droed a llwyfannau pysgota. Cliciwch ar yr 'iconau' i ddarganfod mwy...

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3230

E-bost: countryside@caerdydd.gov.uk

Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

www.caerdyddawyragored.com

